

1. Sut i gofrestru ar gyfer gwasanaeth gwe di-dâl eAML2

O dan y system eAML2, rhoddir 2 opsiwn i gynhyrchwyr adrodd eu symudiadau i'r farchnad:

- Rhaghysbysu: Yn electronig drwy wasanaeth gwe eAML2 neu drwy'r gwasanaeth swyddfa di-dâl
- Ar y diwrnod: ar ddalen 'Crynodeb y Cludwr' a ysgrifennir â llaw – gweler hefyd y dudalen olaf

Yn achos a) bydd gwybodaeth fanwl sy'n ymwneud â'r llwyth yn ymddangos ar gyfrif ar-lein eAML2 y farchnad

Yn achos b) bydd angen i'r farchnad gofnodi'r wybodaeth symud o'r ddogfen bapur ar y system eAML2

Dim ond os nad yw eich meddalwedd pwrpasol wedi cael ei gysylltu gyda'r gwasanaeth eAML2 y mae angen gwneud hyn.

- Ewch at www.eaml2.org.uk yn eich porwr rhyngwyd
- Cliciwch ar 'Cofrestru Marchnad a Chanolfan Gasglu' a rhowch eich manylion
- Bydd enw defnyddiwr a chyfrinair yn cael eu hanfon atoch mewn e-bost



The screenshot shows the BPEX eAML2 website interface. At the top, there is a navigation bar with links for 'About eAML2', 'Help', 'BPEX Home', 'Pig Health', and 'ZNCP'. Below this, there is a 'Home Page' section with links for 'About eAML2', 'Help & User Guides', and 'Contact Us'. The main content area is titled 'Welcome to the electronic pig movement service' and features the eAML2 logo and 'Electronic Movement Licensing' text. There are icons for a truck, a pig, and a mobile phone. A helpline number '0844 335 8400' is provided, along with contact information for email and website. A 'Reminder for Producers' section is also visible. On the left side, there is a 'Registered Users' section with a login form (Username, Password, Log In button) and a 'Send Password' button. Below the login form, there is a link for 'Not yet registered and received a movement? Click Here'. At the bottom of the left-hand menu, there is a link for 'Producer Registration', which is highlighted by a red arrow.

Angen cymorth?

Cysylltwch â llinell gymorth eAML2

Ffôn: 0844 335 8400*

Ffacs: 0247 669 2405

E-bost: eaml2@bpex.org.uk

*Llun-Gwener 9yb-5yh

Codir tâl o 5c y funud am alwadau o linellau BT safonol

2. Sut i ddefnyddio'r gwasanaeth eAML2

1. Mewngofnodwch i'ch cyfrif ar www.eaml2.org.uk. Byddwch yn gweld yr hafan isod:

2. Cliciwch ar 'Gwasanaethau Marchnad a Chanolfan Gasglu' ar y panel ar y chwith:

Summary / FCI	Ship Mark	Site	Qty Received	Qty Left
MH5123		Perky Pink Pigs, Technical Division AL1 3AF	15	7
MH5670		Perky Pink Pigs, Technical Division AL1 3AF	10	10
QW1111		test company, test EH6 GRZ	20	8
SL22220		Perky Pink Pigs, Technical Division AL1 3AF	6	6
SL6699		Early Morning Farm, Meat and Livestock Commission, HQ4 SDB	1	1
VH3344		Perky Pink Pigs, Technical Division AL1 3AF	12	8
Totals			64	48

- Byddwch yn gweld trosolwg o unrhyw e-symudiadau cyfredol a adroddwyd gan gynhyrchwyr i'ch marchnad. Os cliciwch ar y symbolau o flaen y slap farc, byddwch yn gweld dalen crynodeb y cludwr a **Gwybodaeth fanwl am y Gadwyn Fwyd (FCI)**. Dangosir ebychnod coch os cafodd unrhyw foch eu trin
- 'Trefnu Symudiad': cliciwch i drefnu eich symudiadau allan o'ch marchnad
- 'Eich Manylion Busnes': cliciwch i gwblhau manylion busnes y farchnad
- 'Eich Archif Symudiadau': cliciwch i weld y llwythi sy'n dod i'ch marchnad ac allan ohoni
- 'Manylion Cyfrif': cliciwch i olygu eich manylion cyswllt

3. Cadarnhau a chofnodi unrhyw symudiadau i'ch marchnad

Unwaith i chi gadarnhau a chofnodi pob symudiad i'ch marchnad, gallwch greu'r symudiad oddi ar y farchnad:

Ar y dudalen 'Gwasanaethau Marchnad a Chanolfan Gasglu', byddwch yn gweld unrhyw symudiadau cyfredol a adroddwyd yn electronig gan geidwaid i'ch marchnad (gweler hefyd y ciplun uchod).

1. Cadarnhewch neu golygwch union nifer y moch a dderbyniwyd ac unrhyw foch sydd wedi marw erbyn cyrraedd yn y blychau gwyn
2. Os oes angen i chi gofnodi symudiadau i mewn gan gynhyrchwyr, hy cynhyrchwyr a ddaeth i'r farchnad gyda dalen 'Crynodeb y Cludwr' wedi'i hysgrifennu â llaw ar ddiwrnod yr arwerthiant, cliciwch ar 'Adrodd Symudiad i Mewn':
 - Rhowch ddau ddarn o wybodaeth am y safle ymadael (mae hyn ar gyfer diogelu data) a chliciwch ar 'Chwilio'
 - Dewiswch y fferm gywir a chliciwch ar 'Adrodd Symudiad'
 - Cwblhewch y cwestiynau symud, pwyswch 'Cyflwyno' a chadarnhewch y niferoedd a dderbyniwyd fel o'r blaen yn y rhestr drosolwg



4. Sut i drefnu symudiad oddi ar eich marchnad


1. Cliciwch ar 'Trefnu Symudiad' (naill ai drwy glicio ar y symbol neu ar y panel ar y chwith)
 - Dewiswch eich marchnad o'r gwymplen drwy glicio ar y saeth ddu ar y dde
 - Dewiswch a fydd y llwyth yn mynd i ladd-dy neu i fferm
 - Dewiswch eich cyrchfan o'r gwymplen neu chwiliwch am fferm
 - Cliciwch ar 'Symudiad Newydd'

2. Rhwch nifer y moch a werthwyd o bob llwyth yn y blychau 'Nifer i'w Hanfon' a cliciwch ar 'Trefnu Symudiad Allan'
3. Cwblhewch y cwestiynau – mae'r rhan fwyaf wedi'u llenwi ymlaen llaw - ticiwch y blychau ac wedyn cliciwch ar 'Cyflwyno Symudiad'

4. Argraffwch y ddalen 'Crynodeb y Cludwr' ar gyfer y cludwr. Bydd y cludwr yn cadw'r ddogfen hon. Os nad oes gan y lladd-dy neu'r fferm gyrchfan fynediad i'r rhyngrwyd/e-bost, bydd y system eAML2 yn gofyn i chi argraffu 2 gopi o'r ddalen yn awtomatig: 1 i'w gadw gan y cludwr ac 1 ar gyfer y cyrchfan. Mae'n ofyniad cyfreithiol i gludwyr a safleoedd heb TG gadw cofnod o ddogfen crynodeb y cludwr at ddibenion archwiliad.

Mae'r broses hon yn golygu nad oes angen trwydded symud gan swyddog Iechyd Anifeiliaid (AHLVA erbyn hyn).


Mae'r wybodaeth symud gan gynnwys Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd yn cael ei e-bostio i'r lladd-dy neu'r fferm gyrchfan yn awtomatig os oes ganddynt gyfrifiadur â mynediad i'r rhyngrwyd.



[About eAML2](#)
[Help](#)
[BPEX Home](#)
[Pig Health](#)
[ZNPC](#)

[English](#) | [Cymraeg](#) | [Logout](#)

This movement is pending - please print the summary



Report of a Market to Slaughter Pig Movement made under the General Licence for the Movement of Pigs - Incorporating Food Chain Information

Under the Disease Control (England) Order 2003 and Disease Control (Wales) Order 2003 (as amended)

Summary for electronic AML2/FCI. FCI details have been provided electronically to the FBO.

Movement Reference:
TG6K

1. Departure Details Assurance No: <input type="text" value="223334444"/> Pig Pyramid Move? <input type="checkbox"/> Departure CPH: <input type="text" value="223334444"/> Birth CPH / Temp Mark: <input type="text"/>	Keeper's name and details of holding of Departure BPEX Test Market, BPEX Stoneleigh, EN7 8QD	Name and address of Owner (if different) BPEX Market Owner, The Market, EN7 8QD
---	---	--

2. Details of Pigs	4. FCI declaration	
No. of animals: <input type="text" value="16"/>	Produce System: <input type="text"/>	All other systems: <input type="text"/>
Description: <input type="text" value="Finished/finer"/>	Has this consignment of pigs been treated with a veterinary medicine within the last 28 days? <input type="text" value="No"/>	
Lot Number: <input type="text"/>	Have withdrawal periods for veterinary medicines and other products been met? <input type="text" value="Yes"/>	
Identification Mark: <input type="text" value="M98123.001111.SL1"/>	How many pigs have conditions or abnormalities? <input type="text" value="0"/>	
3. Name and address of veterinary practice	Is this holding under restrictions for health reasons? <input type="text" value="No"/>	
<input type="text"/>	ZNPC Score %: <input type="text"/>	
	Is this all in (all out batch)? <input type="text"/>	
	Are these the last pigs of the Batch? <input type="text" value="No"/>	
	Signature: <input type="text"/>	Date: <input type="text" value="14/08/2011"/>
	Name: <input type="text"/>	Tel No: <input type="text"/>

I declare the above details are correct and the animals are being moved in accordance with licence provisions.

5. Sut i ddefnyddio eich archif symudiadau

Dyma lle y bydd unrhyw symudiadau i'ch marchnad ac oddi arni yn cael eu cadw. Gallwch gael eu gweld unrhyw bryd at ddibenion archwiliad neu i argraffu copiau o ddogfennau crynodeb y cludwr os oes angen – cliciwch ar yr eicon 'pdf'.

Bydd y dogfennau yn cael eu storio am y cyfnod sy'n ofynnol yn gyfreithiol, sef 3 blynedd.

The screenshot shows the BPEX eAML2 web interface. At the top, there is a navigation bar with the BPEX logo and links for 'About eAML2', 'Help', 'BPEX Home', 'Pig Health', and 'ZNCP'. Below this is a sidebar with various menu items. The main content area displays a table of movements. A dropdown menu is open, showing 'Movements sent FROM this market' selected. Below this, there are sections for '0 Pending eAML Movements', '2 Movements Requiring Your AML2 Feedback', and '0 Completed Movements'. The table of movements requiring feedback has the following data:

Destination	Consignment Date	Consignment Size	Slap Mark
Poriko Meats Ltd, MK6 ZAX	24/09/2011	16	MH5123, qwt1111, SL6699
Poriko Meats Ltd, MK6 ZAX	29/07/2011	1	SL99999

6. Beth i'w wneud os na allwch ddefnyddio'r gwasanaeth eAML2

Mae'r gwasanaeth eAML2 yn cael ei redeg ar ddau weinydd i ddarparu system sefydlog a diogel: Os bydd un gweinydd yn methu, bydd yr ail weinydd yn dechrau gweithio.

Os digwydd i'r gwasanaeth fethu, sy'n annhebygol iawn, dylai marchnadoedd ysgrifennu copiau o grynodeb y cludwr. Rhaid iddynt wedyn gysylltu â llinell gymorth eAML2 o fewn tri diwrnod dros y ffôn/ffacs/drwy'r post i gofnodi'r symudiad(au).